# Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i ddod yn 'Gyngor Digidol' – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr


Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2454A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi trefniadau ar waith i gefnogi ei uchelgeisiau digidol ond mae angen iddo gryfhau ei gynlluniau ar gyfer eu cyflawni 7

Mae gan y Cyngor strategaeth ddigidol newydd y byddai o fudd iddi adlewyrchu effaith y pandemig a chyfeiriad polisi cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg 7

Fe sefydlodd y Cyngor Fwrdd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol, sydd wedi darparu ysgogiad newydd, ond mae cyfle i gryfhau rhai trefniadau llywodraethu 8

Nid yw'r Cyngor wedi pennu'r gofynion o ran adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth eto ac mae cyfle i fynd ati ymhellach i sefydlu diwylliant corfforaethol ar gyfer newid 10

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham-

1 Pan gynhaliom ni asesiad diagnostig o risg yn 2018, canfuom nad oedd y Cyngor wedi cynnal y cyflymder disgwyliedig i ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Ddigidol newydd yn ddiweddar ar gyfer y cyfnod 2020-24. Nodau allweddol y strategaeth yw harneisio technolegau digidol i helpu i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u symleiddio a'u hintegreiddio, gan gadw'r dinesydd yn ganolog i'r hyn y maent yn ei wneud.

2 O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae'r Cyngor, fel llawer o gyrff cyhoeddus, wedi mynd trwy newid sylweddol, ac yntau'n aml wedi ymateb ar frys i amgylchiadau, canllawiau a rheoliadau newidiol. Mae gwasanaethau newydd wedi cael eu creu, rhai gwasanaethau wedi cael eu hatal, staff wedi cael eu hadleoli ac arferion gweithio newydd wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys galluogi'r rhai sy'n gallu gweithio gartref i wneud hynny. Mae hyn wedi galw am newid ar raddfa ac ar gyflymder sy'n ddigynsail ac wedi cynyddu'r galw am ddatrysiadau digidol.

3 Ar y cyfan, roedd arnom eisiau deall a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i gefnogi ei uchelgeisiau i ddod yn gyngor digidol. Roedd hyn yn cynnwys archwilio sut y mae'r Cyngor wedi dysgu o'i newid i fwy o weithio'n ddigidol o ganlyniad i'r pandemig.

4 Roedd y gwaith maes yn cynnwys adolygiad o ddogfennaeth, arsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol a chyfweliadau. Dechreuodd arsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020 a chyfweliadau ym mis Ionawr 2021. Gan hynny mae ein canfyddiadau ar adeg mewn amser pan ydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi symud ei drefniadau ymhellach ymlaen ers i ni ddrafftio'r adroddiad hwn.

### Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi trefniadau ar waith i gefnogi ei uchelgeisiau digidol ond mae angen iddo gryfhau ei gynlluniau ar gyfer eu cyflawni.

6 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth ddigidol newydd y byddai o fudd iddi adlewyrchu effaith y pandemig a chyfeiriad polisi cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg;
- fe sefydlodd y Cyngor Fwrdd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol, sydd wedi darparu ysgogiad newydd, ond mae cyfle i gryfhau rhai trefniadau llywodraethu; ac

- nid yw'r Cyngor wedi pennu'r gofynion o ran adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth eto ac mae cyfle i fynd ati ymhellach i sefydlu diwylliant corfforaethol ar gyfer newid.

## Cynigion ar gyfer Gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Strategaeth Ddigidol**<br>**C1 Gallai'r Cyngor wella'i strategaeth ddigidol fel ei bod yn adlewyrchu**:<br>• effaith y pandemig ar gynyddu'r ddibyniaeth ar wasanaethau digidol.<br>• adferiad y Cyngor o bandemig Covid-19 – dylai'r Cyngor gryfhau'r cysylltiadau rhwng ei strategaeth ddigidol ac ystyriaethau strategol allweddol eraill megis swyddfeydd a'r gweithlu.<br>• y Strategaeth Ddigidol i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a sut y gall effeithio ar ddull strategol y Cyngor lle mae digidol yn y cwestiwn a'i gryfhau.<br>• cyfleoedd i geisio cyngor a chydweithio, lle y bo'n briodol, gyda'r prif swyddog digidol ar gyfer llywodraeth leol a'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ceir cyfleoedd i'r Cyngor fynd ati ymhellach i sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn ei drefniadau cyflawni. |
| **Cyflawni'r strategaeth**<br>**C2 Dylai'r Cyngor gryfhau rhai trefniadau llywodraethu i gyflawni'r strategaeth trwy:**<br>• feintioli'r adnoddau a'r graddfeydd amser sy'n ofynnol i wireddu ei uchelgeisiau digidol;<br>• gwneud rheoli risgiau i'r rhaglen yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd mewn fformat sy'n darparu trosolwg o'r risgiau i'r rhaglen;<br>• archwilio cynrychiolaeth aelodau ar y Bwrdd i wella trefniadau cyfathrebu o ran yr hyn y mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni a'i fwriadau wrth edrych tua'r dyfodol ymhlith aelodau'r Cyngor ac, yn ei dro, ymhlith y cymunedau y maent yn eu cynrychioli; a hefyd |

**Cynigion ar gyfer gwella**

- trefnu bod y Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth ar gyflawni'r strategaeth ar gyfer aelodau gan roi'r cyfle iddynt ddwyn swyddogion i gyfrif am eu perfformiad o ran cyflawni'r strategaeth bob hyn a hyn fel a gytunwyd.

**Diwylliant Corfforaethol**

**C3 – Dylai'r Cyngor ystyried gwella sut y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â staff ac aelodau i ennyn y diwylliant sy'n angenrheidiol i gofleidio newid. Dylai:**

- ddatblygu neges gyson ynghylch diben ei Strategaeth Ddigidol a'i Raglen Drawsnewid;
- taro cydbwysedd rhwng cyfeiriadau at drawsnewid digidol yn arwain at arbedion a mesurau effeithlonrwydd yn y Strategaeth Ddigidol a'r SATC a chynyddu capasiti staff i ganolbwyntio ar bethau eraill; a
- rhoi ystyriaeth ofalus i bryderon staff a'u hagweddau tuag at newid.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi trefniadau ar waith i gefnogi ei uchelgeisiau digidol ond mae angen iddo gryfhau ei gynlluniau ar gyfer eu cyflawni

### Mae gan y Cyngor strategaeth ddigidol newydd y byddai o fudd iddi adlewyrchu effaith y pandemig a chyfeiriad polisi cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg

7 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- fe wnaeth y Bwrdd Rheoli Corfforaethol fabwysiadu ei Strategaeth Ddigidol 2020-24 (y Strategaeth) ym mis Tachwedd 2020. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth lefel uchel i ddod 'yn Gyngor mwy cydnerth, arloesol a thrawsnewidiol', ac mae wedi'i rhannu'n dair prif egwyddor: Dinesydd Digidol, Cyngor Digidol a Lle Digidol.
- mae'r Strategaeth yn ategu'r flaenoriaeth 'defnyddio adnoddau'n ddoethach' yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-2022. Un o'r rhaglenni allweddol i gyflawni'r flaenoriaeth hon yw'r rhaglen trawsnewid digidol sy'n 'amcanu at newid y ffordd yr ydym yn gweithredu i alluogi cwsmeriaid i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau ar-lein'.
- nid yw'r strategaeth ddigidol yn cyfeirio at y pandemig o gwbl. Fel llawer o sefydliadau, fe wnaeth y mwyafrif o weithlu'r Cyngor newid yn gyflym i weithio gartref a chynyddu ei alw am ddatrysiadau digidol gan nad oedd cyfathrebu wyneb yn wyneb ar gael mwyach. Mae hwn yn gyfle wedi'i golli i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod hwn yn y strategaeth, adeiladu ar y datblygiadau y mae wedi'u cyflwyno a sefydlu newid lle mae eisoes wedi digwydd.
- mae'n gadarnhaol bod y Strategaeth yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn nodi rhai enghreifftiau o'r modd y bydd y strategaeth yn mynd i'r afael â'r pum ffordd o weithio[1]. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i'r Cyngor sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio ymhellach yn ei drefniadau cyflawni.
- nid yw'r Cyngor wedi nodi eto beth yw ei flaenoriaethau digidol ar ôl newid i'r platfform newydd ym mis Mawrth 2021. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor

[1] Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi pum ffordd o weithio (Cynnwys, Cydweithio, Atal, y Tymor Hir ac Integreiddio) y mae eu hangen er mwyn i Gyrff Cyhoeddus gyrraedd y saith nod llesiant (Cymru Fwy Llewyrchus, Gydnerth, Iachach, Fwy Cyfartal ac sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu).

wedi bod yn canolbwyntio'i weithgarwch ar newid i blatfform digidol newydd gyda darparwr gwahanol, oherwydd penderfyniad y darparwr cyfredol i adael y farchnad yn gymharol fyr rybudd. Wrth bennu'r blaenoriaethau hyn, mae angen i'r Cyngor sicrhau, yn ogystal ag ehangu'r ystod o wasanaethau digidol sydd ar gael, ei fod yn gallu sicrhau mynediad cyfartal ar gyfer ei holl drigolion, i'w hannog i ddefnyddio'r gwasanaethau a chyfyngu ar amddifadedd digidol.

- nid yw'r Strategaeth yn nodi sut y mae'n bwriadu atal allgau digidol, heblaw am nodi na fydd yn rhoi'r gorau i ffyrdd confensiynol o gysylltu megis dros y ffôn. Roedd y bobl y siaradom ni gyda hwy'n ymwybodol o'r angen i sicrhau nad oedd y strategaeth yn achosi i bobl gael eu hallgau'n ddigidol. Rydym ni'n meddwl y dylai'r Cyngor fyfyrio ynghylch y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig i ddisgrifio'n fwy eglur beth yw ei gynlluniau i geisio mynd i'r afael â hyn.
- ers i ni gwblhau ein gwaith maes, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Strategaeth Ddigidol i Gymru, sy'n nodi'r cyfeiriad cenedlaethol a disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio digidol, data a thechnoleg i wella bywydau pobl yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nod i helpu i sicrhau bod pobl yng Nghymru'n profi gwasanaethau cyhoeddus modern, effeithlon ac wedi'u symleiddio. Bydd angen i'r Cyngor fyfyrio ynghylch ei strategaeth ei hun a sut y mae'n cyd-fynd â'r cyfeiriad cenedlaethol.
- wrth ddatblygu'r strategaeth, dywedodd y Cyngor ei fod wedi cynnwys nifer o randdeiliaid i oleuo'i weledigaeth a'i ddull. Byddai o fudd alinio'r strategaeth yn agos â'r agenda ddigidol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Er enghraifft, i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, a lansiwyd ym mis Mehefin 2020, a'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer llywodraeth leol a benodwyd yn ddiweddar sy'n debygol o fod â rolau arwyddocaol o ran datblygu'r agendâu ddigidol ledled Cymru. Dylai'r Cyngor amcanu at wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau hyn trwy weithio gyda rhanddeiliaid i rannu gwersi a ddysgwyd a sicrhau bod cyflymder y newid yr un fath â gweddill Cymru.

## Fe sefydlodd y Cyngor Fwrdd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol, sydd wedi darparu ysgogiad newydd, ond mae cyfle i gryfhau rhai trefniadau llywodraethu

8 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'n gadarnhaol bod y Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Trawsnewid Digidol i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth. Caiff y Bwrdd, a sefydlwyd ym mis Hydref 2020, ei gadeirio gan y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid ac mae'n atebol i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (BRhC). Mae'r

Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o’r sefydliad, yn nodweddiadol ar lefel Rheolwyr Grŵp.

- nid oes cynrychiolaeth o blith aelodau ar y Bwrdd ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhywbeth gwerth ei archwilio gan y bydd hyn yn gwella’r trefniadau cyfathrebu o ran yr hyn y mae’r Bwrdd wedi’i gyflawni a’i fwriadau yn y dyfodol ymhlith aelodau’r Cyngor ac, yn ei dro, ymhlith y cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Ceir cyfle hefyd i’r Bwrdd ddarparu goruchwyliaeth ar gyflawni’r strategaeth ar gyfer aelodau gan roi’r cyfle iddynt ddwyn swyddogion i gyfrif am eu perfformiad bob hyn a hyn fel a gytunwyd.
- mae’r Bwrdd yn darparu ysgogiad newydd i gyflawni’r strategaeth gan ganolbwyntio i ddechrau ar roi’r platfform digidol newydd ar waith, a hwnnw’n mynd yn fyw ar 1 Ebrill 2021. Mae’r Strategaeth yn cynnwys tabl sy’n nodi 48 o gamau gweithredu y mae’r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Nid yw’r tabl yn blaenoriaethu’r camau gweithredu ac nid yw’n glir sut y cafodd y camau gweithredu eu dethol i’w cynnwys yn y Strategaeth. Nid yw’n pennu’r graddfeydd amser nac yn dyrannu adnoddau na chyfrifoldeb ar gyfer cymryd y camau gweithredu. Hyd yma, nid yw’r Bwrdd wedi datblygu’r tabl yn gynllun gweithredu a fyddai’n ei alluogi i gadw golwg ar gynnydd.
- mae’n gadarnhaol bod y Bwrdd yn bwriadu mabwysiadu rhaglen o brosiectau penodol i gael eu cyflawni gan is-grwpiau, y bydd eu haelodaeth yn cynnwys defnyddwyr terfynol. Nid oes unrhyw grwpiau wedi cael eu sefydlu gan nad yw gwaith y Bwrdd wedi symud ymlaen at y pwynt yma eto.
- er mwyn bwrw ymlaen â phrosiect bydd angen i’r Bwrdd baratoi a chytuno ar achos busnes. Bydd yn rhaid iddo gynnwys y manteision a ddisgwylir, yn ogystal â’r adnoddau sy’n ofynnol. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd graddfeydd amser yn cael eu hystyried fesul prosiect unigol hefyd. Hyd yma, nid oes unrhyw achosion busnes wedi cael eu paratoi.
- nid yw rheoli’r risgiau i’r rhaglen yn eitem sefydlog ar agenda’r Bwrdd mewn fformat sy’n darparu trosolwg o’r risgiau i’r rhaglen. Mae papurau ar gyfer y Bwrdd yn cynnwys risg fel eitem ar wahân ar yr agenda a elwir yn ‘Risgiau a Materion’ ac weithiau fel rhan o adroddiad ar y prif bwyntiau o ran y newid i blatfform digidol newydd. Yn y ddau fath o amgylchiadau, mae’r risgiau a ddisgrifir yn benodol i brosiect y platfform digidol ac nid ydynt yn ystyried risgiau na materion a allai effeithio ar y rhaglen gyfan.
- mae cyfleoedd i alinio’r strategaeth ddigidol a chynlluniau tymor hwy’r Cyngor yn y dyfodol ar gyfer ei weithlu a’i ystadau. Er bod y Pennaeth Adnoddau Dynol yn aelod o’r Bwrdd, nid yw hynny’n wir am Bennaeth y Gwasanaeth Landlord Corfforaethol. Mae’r Pennaeth TGCh yn eistedd ar y Bwrdd Trawsnewid Digidol a’r Bwrdd Swyddfeydd, gan sicrhau rhywfaint o orgyffwrdd, ond mae cyfle i gryfhau’r cysylltiadau hyn i oleuo unrhyw benderfyniadau polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

## Nid yw'r Cyngor wedi pennu'r gofynion o ran adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth eto ac mae cyfle i fynd ati ymhellach i sefydlu diwylliant corfforaethol ar gyfer newid

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi cydnabod diffyg mewn capasiti i gyflawni'r strategaeth, ond nid yw eto wedi meintioli pa adnoddau fydd eu hangen ac o ble y byddant yn dod. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y goblygiadau posibl o ran adnoddau ar lefel gwasanaethau i ategu'r rhaglen trawsnewid digidol.
- mae'n gadarnhaol bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 – 2024-25 (SATC) yn nodi y bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn awtomeiddio a digideiddio gwasanaethau yn unol â'r Strategaeth Ddigidol, ond nid yw'n dweud faint y mae ei fuddsoddiad yn debygol o fod. Mae'n nodi cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer TGCh, yn ogystal â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth. Nid yw'n amlwg o'r adroddiad faint, os o gwbl, o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fydd yn cael ei ddefnyddio'n benodol i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth ddigidol.
- ceir tîm trawsnewid sy'n cynnwys tri o bobl. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y tîm wedi ymrwymo i ryw 47 o brosiectau, y mae rhai ohonynt yn brosiectau etifeddol ac nid yn uniongyrchol drawsnewidiol. Dylai'r Bwrdd ystyried sut y bydd yn ategu ei adnoddau presennol i gyflawni'r rhaglen waith trawsnewid digidol.
- cyfyngedig yw'r adnoddau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) sydd ar gael i weithredu fel galluogwr ar gyfer trawsnewid digidol. Mae'r tîm TGCh wedi profi lefelau o swyddi gwag dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd eu marchnad allanol unigryw. Er enghraifft, mae'r capasiti mewnol ar gyfer datblygu meddalwedd yn gyfyngedig iawn ac nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau penodol i gynyddu capasiti yn y maes penodol hwn. Mae'r tîm hefyd wedi bod â'i holl fryd ar reoli a goruchwylio newid drwyddi draw ym modelau gweithredu gwasanaethau gan bod y pandemig wedi gosod cyfyngiadau eraill ar eu gallu, megis cynorthwyo staff i weithio gartref.
- dywedodd swyddogion wrthym am bwysau ymdrin â'r pandemig, sydd wedi golygu capasiti cyfyngedig mewn nifer o feysydd, yn enwedig addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn her i swyddogion ddod o hyd i gapasiti ychwanegol i gefnogi gwaith trawsnewidiol a hwythau hefyd yn ymateb i'r pandemig a'i ganlyniadau.
- dywedodd llawer o bobl y siaradom ni gyda hwy fod y diwylliant sefydliadol yn rhwystr posibl i gyflawni'r strategaeth. Rydym yn deall bod ymgeisiau blaenorol i symud tuag at fwy o wasanaethau digidol wedi pwysleisio'r arbedion posibl, a achosodd lawer o bryder ymhlith staff ynghylch swyddi a allai gael eu colli. Mae'r Cynllun Corfforaethol, y Strategaeth Ddigidol a'r SATC oll yn nodi y gallai arbedion a mesurau effeithlonrwydd gael eu

cyflawni oherwydd trawsnewid digidol. Mae uwch swyddogion yn deall y bydd angen i bryderon staff a'u hagweddau tuag at newid gael eu hystyried yn ofalus er mwyn i'r Cyngor fod yn llwyddiannus o ran cyflawni'r strategaeth ddigidol.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.